# Cofrestrfa Tir EF

## Rhybuddiad yn erbyn cofrestriad cyntaf

# CT1

**Dylai unrhyw rannau o'r ffurflen nad ydynt yn cael eu teipio gael eu llenwi mewn inc du ac mewn prif lythrennau.**

Os bydd angen mwy o le arnoch na'r hyn sydd ar gael mewn panel, ac mae'ch meddalwedd yn caniatáu hynny, gallwch ehangu unrhyw banel yn y ffurflen. Fel arall defnyddiwch ddalen barhau CS a'i hatodi i'r ffurflen hon.

Ni all Cofrestrfa Tir EF roi cyngor cyfreithiol, ond mae canllawiau ar rybuddiadau yn erbyn cofrestriad cyntaf ar gael i drawsgludwyr yng nghyfarwyddyd ymarfer 3: rhybuddiadau yn erbyn cofrestriad cyntaf sydd ar gael o www.gov.uk/land-registry. **Mae Cofrestrfa Tir EF yn argymell yn gryf bod trawsgludwyr yn darllen cyfarwyddyd ymarfer 3 cyn llenwi'r ffurflen hon.**

Mae trawsgludwr yn derm a ddefnyddir yn y ffurflen hon. Fe'i diffinnir yn rheol 217A o Reolau Cofrestru Tir 2003 ac mae'n cynnwys unigolion a awdurdodwyd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cyfreithiol 2007 i ddarparu gwasanaethau cyfreithiol neilltuedig yn ymwneud â chofrestru tir ac mae'n cynnwys cyfreithwyr a thrawsgludwyr trwyddedig.

I gael gwybodaeth am sut mae Cofrestrfa Tir EF yn prosesu eich gwybodaeth bersonol, gweler ein Siarter Gwybodaeth Bersonol.

AR GYFER COFRESTRFA TIR EF YN UNIG

Cofnod o'r ffioedd a dalwyd

Manylion gordaliad/tandaliad

Cyfeir-rif

Ffioedd a ddebydwyd £

Os yw mwy nag un awdurdod lleol yn gwasanaethu'r ardal, nodwch yr un y byddwch yn talu'r dreth gyngor neu ardrethi busnes iddo fel rheol.

1 Yr awdurdod lleol sy'n gwasanaethu'r eiddo:

Rhowch gyfeiriad gan gynnwys cod post (os oes) neu ddisgrifiad arall o'r eiddo, er enghraifft 'tir yn ffinio â 2 Acacia Avenue'.

2 Eiddo:

Rhowch 'X' yn y blwch priodol. Defnyddiwch yr ail ddewis dim ond os oes cyfeiriad gan y tir a'i fod wedi ei ffensio neu fod ganddo nodweddion terfyn tebyg.

3 Mae stent y tir sy'n destun y rhybuddiad wedi ei ddynodi'n eglur ar argraffiad cyfredol map yr Arolwg Ordnans o'r

☐ cynllun atodedig ac wedi ei ddangos:

Nodwch sut y cyfeirir ato, er enghraifft 'gydag ymyl coch'.

☐ y cyfeiriad a ddangoswyd ym mhanel 2

I gael rhagor o wybodaeth am ein ffioedd gweler www.gov.uk/government/collections/fees-land-registry-guides

4 Cais a ffi

| Cais | Ffi a dalwyd (£) |
|---|---|
| Rhybuddiad yn erbyn cofrestriad cyntaf | |

Rhowch 'X' yn y blwch priodol.

Dull talu'r ffi

☐ siec yn daladwy i 'Cofrestrfa Tir'

Codir y ffi i'r cyfrif a nodwyd ym mhanel 6.

☐ debyd uniongyrchol, o dan gytundeb gyda'r Gofrestrfa Tir

Rhowch enw(au) llawn y sawl sy'n gwneud cais am y rhybuddiad. Os yw trawsgludwr yn cyflwyno'r cais, rhaid nodi enw(au) y cleient(iaid), nid y trawsgludwr.

Cwblhewch fel y bo'n briodol os yw'r rhybuddiwr yn gwmni.

**5** Y rhybuddiwr:

Ar gyfer cwmnïau corfforedig yn y DU/Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig
Rhif cofrestredig y cwmni neu'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig gan gynnwys unrhyw ragddodiad:

Ar gyfer cwmnïau tramor
(a) Tiriogaeth ei gorffori:

(b) Rhif cofrestredig yn y Deyrnas Unedig gan gynnwys unrhyw ragddodiad:

---

Rhaid cwblhau'r panel hwn ar bob adeg.

Dim ond i gwsmeriaid proffesiynol, fel cyfreithwyr, mae rhif allwedd ar gael.

Os ydych yn talu trwy ddebyd uniongyrchol, codir y ffi i'r cyfrif hwn.

Dyma'r cyfeiriad y byddwn yn anfon ymholiadau ato fel rheol. Fodd bynnag os rhowch gyfeiriad ebost, byddwn yn defnyddio hwn lle bynnag y bo'n bosibl. Dim ond os yw cyfeiriad ebost yn cael ei nodi y byddwn yn anfon llythyron rhybudd am ddileu at drawsgludwyr.

**6** Anfonir y cais hwn i'r Gofrestrfa Tir gan

Rhif allwedd (os yw'n gymwys):

Enw:
Cyfeiriad neu rif blwch DX yn y DU:

Cyfeiriad ebost:
Cyfeirnod:

| Rhif ffôn: | Rhif ffacs: |
|---|---|

---

Rhowch 'X' yn y blwch (blychau) priodol a chwblhau fel bo angen. Gall yr ystad y mae'r rhybuddiad yn ymwneud â hi fod yn ystad gyfreithiol y mae'r rhybuddiwr yn hawlio ei fod yn berchen arni (ar yr amod nad yw'n ystad gofrestradwy mewn tir) neu'n un y mae'n honni fod ganddo fudd ynddi (ar yr amod nad yw'r budd hwnnw'n ystad brydlesol gofrestradwy mewn tir): gweler cyfarwyddyd ymarfer 3.

Yn achos ystad brydlesol, rhent-dâl, rhyddfraint neu broffid à prendre mewn gros, rhowch fanylion llawn yr ystad brydlesol, rhent-dâl, rhyddfraint neu broffid arbennig yr effeithir arno. Rhaid cynnwys dyddiad, natur a phartïon yr offeryn trwy'r hwn y crëwyd yr ystad, os ydych yn ei wybod; maint y rhent-dâl; natur y rhyddfraint neu broffid; a hyd y cyfnod, os yw'n brydlesol.

Os yw'r ystad yn brydles amharhaol, dylid cynnwys manylion ynghylch pa bryd y mae'r hawl i feddiant yn gweithredu, er enghraifft nifer yr wythnosau bob blwyddyn.

**7** Yr ystad sy'n destun y rhybuddiad yw

☐ y rhydd-ddaliad

☐ prydles ddyddiedig                    am gyfnod o
o                    a wnaed rhwng

Ydy'r brydles yn amharhaol?   Ydy ☐   Nac ydy ☐

☐ rhent-dâl

☐ rhyddfraint

☐ proffid à prendre mewn gros

---

Gall pob rhybuddiwr roi hyd at dri chyfeiriad ar gyfer gohebu, a rhaid i un ohonynt fod yn gyfeiriad post boed yn y DU neu beidio (gan gynnwys cod post, os oes). Gall y cyfeiriadau eraill fod yn unrhyw gyfuniad o gyfeiriad post, rhif blwch DX yn y DU neu gyfeiriad ebost.

**8** Cyfeiriad(au) ar gyfer gohebu pob rhybuddiwr i'w gofnodi yn y gofrestr yw:

Rhowch 'X' yn y blwch priodol.

Mae hyn ar gyfer achosion lle mae'r rhybuddiwr yn gwmni neu'n fusnes, neu fel arall yn rhywun na all wneud y datganiad yn bersonol.

Rhowch resymau a disgrifiwch y berthynas rhwng y sawl sy'n gwneud y datganiad a'r sawl y mae'n cael ei wneud ar ei ran. Amgaewch unrhyw ddogfennau perthnasol.

9 Hunaniaeth y sawl sy'n gwneud y datganiad o wirionedd ym mhanel 10

☐ Mae'r datganiad yn cael ei wneud gan y rhybuddiwr (un o'r rhybuddwyr).

Enw llawn y sawl sy'n gwneud y datganiad yw:

☐ Mae'r datganiad yn cael ei wneud ar ran y rhybuddiwr (un o'r rhybuddwyr), na all/na allant wneud y datganiad hwn am y rhesymau canlynol:

Enw llawn y sawl sy'n gwneud y datganiad yw:

Cyfeiriad:

☐ Mae'r datganiad yn cael ei wneud gan drawsgludwr sy'n gweithredu ar ran y rhybuddiwr.

Enw llawn y trawsgludwr yw:

Enw'r cwmni (os oes):

Cyfeiriad neu rif blwch DX yn y DU:

Rhaid i'r panel hwn amlinellu natur budd y rhybuddiwr.

Peidiwch ag atodi unrhyw ddogfennau, neu fel arall gyflwyno unrhyw ddogfennau, i gefnogi'r datganiad. Rhaid nodi natur budd y rhybuddiwr yn y datganiad ei hun: ni ddylid gorfod cyfeirio at ddogfennau eraill ar gyfer y wybodaeth hon. Er enghraifft, nid yw datganiad i'r perwyl bod gan y rhybuddiwr fudd yn yr ystad 'fel y nodir yn y ddogfen atodedig' neu 'fel y nodir mewn gohebiaeth gyda Chofrestrfa Tir EF' yn dderbyniol a chaiff y cais ei wrthod.

Gweler y rhybuddion ar ddiwedd y ffurflen hon.

Os yw datganiad ar y cyd yn cael ei wneud gan ddau unigolyn neu fwy, gellir gwneud newidiadau ôl-ddilynol i'r testun yn y panel hwn (er enghraifft, gellir newid 'Rwyf' i 'Rydym').

Rhaid i'r sawl sy'n gwneud y datganiad – boed yn rhybuddiwr, rhywun sy'n gwneud y datganiad ar ran y rhybuddiwr neu drawsgludwr yn gweithredu ar ran y rhybuddiwr – ei lofnodi, argraffu ei enw yn llawn ac ychwanegu'r dyddiad.

Os nad yw'r sawl sy'n gwneud y datganiad yn gallu ei lofnodi, bydd angen newid y geiriad hwn i gydymffurfio â rheol 215A(5) a (6) o Reolau Cofrestru Tir 2003. Yn ogystal, ac mewn achosion lle na all y sawl sy'n gwneud y datganiad ddarllen, bydd angen cael tystysgrif briodol: gweler rheol 215A(4) a (5).

10 Datganiad o wirionedd

Datganaf fod gan y rhybuddiwr fudd yn yr ystad y cyfeiriwyd ati ym mhanel 7 fel:

Credaf fod y ffeithiau a'r materion a gynhwysir yn y datganiad hwn yn wir.

Llofnod: ______________________________________________

Printiwch yr enw llawn:

Dyddiad:

Os yw trawsgludwr yn gweithredu ar ran y ceisydd, rhaid i'r trawsgludwr hwnnw lofnodi. Os nad yw trawsgludwr yn gweithredu, rhaid i'r ceisydd (ac os oes mwy nag un, pob un ohonynt) lofnodi.

Rhaid llofnodi a dyddio'r panel hwn hyd yn oed os llofnodwyd a dyddiwyd panel 10 gan yr un person.

11

Llofnod y ceisydd neu'r trawsgludwr: ------------------------------------------------

Dyddiad:

Nid oes angen unrhyw gydsyniadau ar gyfer ceisiadau rhybuddiad. Fodd bynnag, gall rhywun gydsynio i gyflwyno rhybuddiad yn unol â rheol 47 o Reolau Cofrestru Tir 2003. Trwy gydsynio felly gall yr unigolyn hwnnw wneud cais i ddileu'r rhybuddiad o dan adran 18(1) o Ddeddf Cofrestru Tir 2002 dim ond os yw un o'r eithriadau o dan reol 46 o Reolau Cofrestru Tir 2003 yn berthnasol.

12 Rwyf i/Rydym ni yn cydsynio i gyflwyno'r rhybuddiad

| Printiwch yr enw(au) llawn | Llofnod(ion) |
|---|---|
| 1. | 1. |
| 2. | 2. |
| 3. | 3. |
| 4. | 4. |

RHYBUDD
Os ydych yn rhoi gwybodaeth mewn modd anonest neu'n gwneud datganiad y gwyddoch ei fod, neu a allai fod yn anwir neu'n gamarweiniol, ac yn bwriadu, trwy wneud hynny, gynnig mantais i chi neu rywun arall, neu achosi colled neu'r risg o golled i rywun arall, gallech fod yn cyflawni'r trosedd o dwyll o dan adran 1 o Ddeddf Twyll 2006, a'r uchafgosb ar gyfer hyn yw carchar o 10 mlynedd neu ddirwy ddiderfyn, neu'r ddau.

Os nad ydych yn llenwi'r ffurflen hon gyda'r gofal priodol gall diogelwch o dan Ddeddf Cofrestru Tir 2002 gael ei golli os yw camgymeriad yn cael ei wneud yn y gofrestr o ganlyniad i hyn.

O dan adran 66 o Ddeddf Cofrestru Tir 2002 mae'r rhan fwyaf o ddogfennau (gan gynnwys y ffurflen hon) a gedwir gan y cofrestrydd sy'n ymwneud â chais a gyflwynir i'r cofrestrydd neu y cyfeirir ato yn y gofrestr ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio a'u copïo. Os ydych yn credu bod dogfen yn cynnwys gwybodaeth niweidiol, gallwch wneud cais i'r rhan honno o'r ddogfen gael ei heithrio trwy ddefnyddio Ffurflen EX1, o dan reol 136 o Reolau Cofrestru Tir 2003.

Mae adran 77 o Ddeddf Cofrestru Tir 2002 yn gosod dyletswydd i beidio â chyflwyno rhybuddiad heb achos rhesymol. Mae'n bosibl y bydd unrhyw un sy'n torri'r ddyletswydd hon yn gorfod talu iawndal i unrhyw un sy'n dioddef colled o ganlyniad.

© Hawlfraint y Goron (cyf: LR/HO) 08/23